

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

Cynigion yn ymwneud â chyhoeddi
ystadegau swyddogol

Ebrill 2014

Cynigion yn Ymwneud â Chyhoeddi Ystadegau Swyddogol – Crynodeb o Ymatebion

Cyflwyniad

Yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos ar gynigion yn ymwneud â chyhoeddi Ystadegau Swyddogol. Cychwynnodd yr ymgynghoriad ar 09 Rhagfyr 2013 a daeth i ben ar 03 Mawrth 2014. Mae copi o'r ddogfen ymgynghorol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru¹ ynghyd â'r crynodeb hwn o ymatebion.

Amlinellodd y ddogfen ymgynghori ein blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd sy'n dod ac amlygu'r meysydd ble byddwn yn gwneud newidiadau mewn ymateb i'r amgylchedd newidiol trwy wneud rhagor o ddefnydd o ledaenu electronig, osgoi dyblygu, cydweithio ar draws terfynau sefydliadau a lleihau gwaith sy'n llai gwerthfawr.

Prif nod yr ymgynghoriad oedd ceisio safbwyntiau defnyddwyr ynghylch y pum cynnig canlynol:

- Adeiladu ar ein cymuned gydweithredol gyda sefydliadau partner a diddymu dyblygu yn y gwaith o gyhoeddi ystadegau swyddogol.
- I ganiatáu rhagor o amser ar gyfer dehongli a dadansoddi gwerth ychwanegol, lle bydd yn briodol byddwn yn cyhoeddi setiau data trwy StatsCymru², gan leihau nifer yr allbynnau ystadegol misol a chwarterol rheolaidd. Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r setiau data yn fwy prydlon a chynnig cefnogaeth briodol i ddefnyddwyr.
- Symud y data o lawer o'n cyhoeddiadau compendia o gopi caled/pdf i StatsCymru, gan sicrhau fod y data ar gael i ddefnyddwyr ar ffurf cod agored ac y gellir eu llwytho i lawr.
- Yn achos yr ychydig allbynnau hynny sy'n ychwanegu llai o werth, neu y mae ychydig iawn o ddefnydd ohonynt y tu allan i gynulleidfa arbenigol iawn neu fewnol, byddwn yn lleihau eu hamledd neu'n rhoi'r gorau i gasglu/cyhoeddi'r data.
- Cyhoeddi ceisiadau ad-hoc am wybodaeth ystadegol, gan gysoni ein safonau gwasanaeth â'n dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion a gawsom i'n hymgyngghoriad ac yn amlinellu sut byddwn yn symud ymlaen yn dilyn yr adborth hwn. Darperir rhagor o fanylion ynghylch ein gweithgarwch ystadegol arfaethedig am y flwyddyn nesaf yn ein Cynllun Tystiolaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol 2014-15 a gyhoeddir yn adran Ystadegau ac Ymchwil³ gwefan Llywodraeth Cymru ym Mehefin.

¹ www.wales.gov.uk/consultations/statistics/proposals-concerning-publication-official-statistics

² <https://statscymru.cymru.gov.uk/>

³ www.wales.gov.uk/statistics-and-research/about/user-engagement/plans-practices/knowledge-analytical-services-evidence-plan

Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 27 ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad defnyddwyr. O'u plith:

- Roedd 4 gan ddefnyddwyr yng nghyffwrdd hyd braich Llywodraeth Cymru;
- Roedd 12 gan ddefnyddwyr mewn awdurdodau lleol;
- Roedd 4 gan ddefnyddwyr yn y sector cyhoeddus;
- Roedd 3 gan bleidiau gwleidyddol; ac
- Roedd 4 gan ddefnyddwyr eraill.

Mae rhestr o atebwyr ar gael yn Atodiad 1. Cafwyd adborth hefyd trwy gyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (un o bwyllgorau ymgynghorol allweddol Llywodraeth Cymru ar ystadegau swyddogol), a gynhaliwyd ar ddechrau Mawrth 2014.

Fel bob amser, rydym yn gwerthfawrogi barn ein defnyddwyr – diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi treulio amser yn darllen ein dogfen ymgynghori ac ymateb iddi. Mae'r holl adborth a gafwyd wedi cael ei ystyried. Mae'r safbwyntiau hyn yn sail i'n cynlluniau a sut i symud ymlaen â'n cynigion.

Roedd mwyafrif yr adborth a gafwyd yn gefnogol o'r cyfeiriad y bwriadwn ei gymryd.

Datganodd rhai atebwyr bryderon y gellir rhoi'r gorau i gyhoeddi rhai ystadegau pwysig. Rydym yn pwysleisio na fydd rhan fwyaf o'n allbynnau ystadegol wedi'u heffeithio ac y bydd y data sylfaenol yn dal ar gael ym mwyafrif yr achosion. Trafodir hyn yn fanylach o dan Gynnig 2 isod. Fodd bynnag, mae'n eglur fod rhaid inni fod yn hollol dryloyw ynghylch yr amserlen ac argaeledd data cyfredol, hyd yn oed pan na chyhoeddir y cyhoeddiadau ystadegol mwy rheolaidd.

O gofio dibyniaeth gynyddol ein cynigion ar StatsCymru, roedd llawer o'r adborth yn ymwneud â defnyddioldeb y wefan a'r cymorth sydd ar gael i'w defnyddwyr, a bydd angen inni weithredu mewn ymateb i'r pryderon hyn.

Mae crynodeb o'r themâu sy'n deillio o'r ymatebion a gafwyd ar y tudalennau dilynol, ar gyfer pob un o'r pump cynnig.

Cynnig 1 – Adeiladu ar ein cymuned gydweithredol gyda sefydliadau partner a diddymu dyblygu yn y gwaith o gyhoeddi ystadegau swyddogol

Cawsom ymatebion cadarnhaol gan ein sefydliadau partner, oedd yn croesawu ein cynnig i adeiladu ar ein cymuned gydweithredol.

Credai mwyafrif yr atebwyr fod Cynnig 1 yn ddull gweithredu pragmatig i'w fabwysiadu, er bod rhai yn pryderu na fydd hi mor hawdd cael data gan sefydliadau eraill efallai, a phwysleisiodd sawl ymateb bwysigrwydd cyfeirio clir ar wefannau sefydliadau eraill.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn a sicrhau fod defnyddwyr yn dal i allu canfod yr ystadegau y mae eu hangen arnynt, lle na fyddwn bellach yn cynhyrchu crynodebau o ystadegau sefydliadau eraill:

- byddwn yn cynnal cysylltiadau gwe uniongyrchol ar ein gwefan Ystadegau Cymru⁴ ag allbynnau ein sefydliadau partner;
- yn achos ystadegau na ellir eu canfod yn rhwydd yn unman arall, byddwn yn parhau i'w cyhoeddi ar ryw ffurf neu'i gilydd (er enghraifft, data ynghylch cynhyrchu haearn a dur);
- lle gellir gwneud hynny, byddwn yn ymgorffori allbynnau ystadegol ynghylch Cymru a gynhyrchir gan sefydliadau eraill yn ein calendr⁵ o gyhoeddiadau sydd i ddod er mwyn hysbysu defnyddwyr yn well pan gyhoeddir ystadegau sydd o ddiddordeb.

Cynnig 2 – I ganiatáu rhagor o amser ar gyfer dehongli a dadansoddi gwerth ychwanegol, lle bydd yn briodol byddwn yn cyhoeddi setiau data trwy StatsCymru, gan leihau nifer yr allbynnau ystadegol misol a chwarterol rheolaidd

Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig i gyhoeddi setiau data ar ein gwefan StatsCymru yn fwy prydlon.

Lle'r ydym yn lleihau nifer yr allbynnau ystadegol rheolaidd misol a chwarterol, roedd pryderon y bydd hyn yn arwain at lai o ddata i graffu ar berfformiad llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus. Nid oeddem yn bwriadu cael gwared ar ddata o'r parth cyhoeddus, a bydd y data sylfaenol yn dal ar gael trwy StatsCymru. Fodd bynnag, gan ystyried y pryderon a fynegwyd ynghylch rhwyddineb canfod y data hyn, byddwn:

- yn achos rhai allbynnau, yn cynnal detholiad o ystadegau allweddol ar y dudalen a gaiff eu diweddarau ar yr un pryd â data StatsCymru;
- yn sicrhau ein bod yn dryloyw ynghylch dyddiadau cyhoeddi data wedi diweddarau trwy StatsCymru. Byddwn yn cynnwys diweddariadau StatsCymru yn ein calendr o allbynnau.

Croesawai llawer ein cynnig i wella'r cymorth i ddefnyddwyr StatsCymru, trwy ddarparu arweiniad a hyfforddiant, i alluogi defnyddwyr i ganfod yr wybodaeth y mae

⁴ www.wales.gov.uk/statistics-and-research

⁵ www.wales.gov.uk/statistics-and-research/?upcoming=true

ei hangen arnynt a defnyddio'r ymarferoldeb. Awgrymodd rhai wneud gwelliannau i StatsCymru i sicrhau fod y wefan yn haws ei defnyddio a'i llywio. Dywedodd rhai hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael rhybudd ymlaen llaw ynghylch pryd caiff setiau data eu cyhoeddi ar StatsCymru, ac eir i'r afael â hyn yn unol â'r disgrifiad uchod.

Bwriadwn wneud nifer o welliannau er mwyn gwella hygyrchedd ac eglurder data StatsCymru ymhellach. Er enghraifft, byddwn yn gwella'r metadata a gyhoeddir gyda thablau StatsCymru, a byddwn hefyd yn cynnwys codau data mewn tablau (yn ogystal â labeli data) i sicrhau y gellir gwneud cysylltiadau gwell rhwng setiau data.

Rydym yn bwriadu datblygu cyfres o webinarau rheolaidd i alluogi defnyddwyr i gael cymorth i ddefnyddio StatsCymru a chynnig adborth rheolaidd i ni.

Cynnig 3 – Symud y data o lawer o'n cyhoeddiadau compendia o gopi caled/pdf i StatsCymru, gan sicrhau fod y data ar gael i ddefnyddwyr ar ffurf cod agored ac y gellir eu llwytho i lawr

Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch ein cynnig i symud cyhoeddiadau compendia i wefan StatsCymru. Byddwn felly yn parhau â'n cynlluniau ar gyfer y cynnig hwn a byddwn yn hysbysu defnyddwyr pan wneir y newidiadau.

Dywedodd rhai atebwyr fod cyhoeddiadau compendia megis Ystadegau Cryno Ardaloedd Lleol a'r Compendiwm Ystadegau Ysgolion yn ddefnyddiol ar eu ffurf bresennol, yn enwedig i'r sawl nad ydynt yn arbenigwyr ar ddefnyddio ystadegau.

Fel y disgrifir yn yr ymgynghoriad, cyn belled ag y bo modd, byddwn yn ceisio sicrhau fod y data sydd wedi'i gynnwys yn y compendia ar gael trwy StatsCymru neu ddulliau eraill. Dywedodd nifer fechan o atebwyr fod fersiynau pdf yn ddefnyddiol. Byddwn yn parhau i ystyried beth yw'r ffordd orau o ddarparu fersiynau o dablau y gellid eu hargraffu.

Cynnig 4 – Yn achos yr ychydig allbynnau hynny sy'n ychwanegu llai o werth, neu mae'r defnydd ohonynt y tu allan i gynulleidfa arbenigol iawn neu fewnol yn brin iawn, byddwn yn lleihau eu hamledd neu'n rhoi'r gorau i gasglu/cyhoeddi'r data

Mynegwyd ychydig o bryder ynghylch y bwriad i leihau amledd neu beidio â chyhoeddi'r allbynnau penodol canlynol:

- Cyfrifiad Carafannau Sipsiwn a Theithwyr – byddwn yn parhau i wneud cyfrifiad bob dwy flynedd a byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'w gynnwys. Byddwn hefyd yn cyflwyno system casglu data ar-lein.
- Cynhyrchu a Defnydd Ynni yng Nghymru – gwneir ymchwil pellach i amledd gofynnol y data hyn.
- Adroddiad ynghylch Cyflwr yr Amgylchedd – byddwn yn archwilio dulliau o sicrhau fod data dangosol ynghylch yr amgylchedd ar gael.
- Demograffeg Busnes – byddwn yn parhau â'n dull gweithredu arfaethedig ond byddwn yn parhau i gyhoeddi'r data demograffeg busnes bob blwyddyn.

- Cyflawniad academaidd a phresenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion – byddwn yn gweithredu ein cynnig i leihau amledd y bwletin hwn a'i gyhoeddi unwaith bob dwy flynedd, ond caiff tablau newydd StatsCymru eu cynhyrchu'n flynyddol i sicrhau fod y data yn dal ar gael.

Yn ogystal, dywedodd rhai awdurdodau lleol fod casgliadau data Stats2 a Stats3 yn ddefnyddiol iddynt hwy, ond ar y cyfan, roeddent yn cytuno â'r cynnig i leihau amledd y casgliadau hyn, gan ystyried effaith positif hynny o ran lleihau baich darparwyr data a chael gwared ar ddyblygu.

Ni fynegwyd pryderon sylweddol ynghylch unrhyw un o'r allbynnau eraill, felly byddwn yn parhau â'n cynlluniau i weithredu'r cynigion hyn.

Cynnig 5 – Cyhoeddi ceisiadau ad-hoc am wybodaeth ystadegol, gan gysoni ein safonau gwasanaeth â'n dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth

Roedd pawb a gynigiodd adborth ynghylch y cynnig hwn yn croesawu ein cynlluniau i gyhoeddi ceisiadau ad-hoc am wybodaeth ystadegol. Credai'r atebwyr y byddai'n ddefnyddiol inni wneud hyn yn rhagweithiol, a gobeithid y byddai cyhoeddi ceisiadau ad-hoc yn lleihau baich darparwyr data unigol, y gellid gwneud cais iddynt am yr un wybodaeth.

Nodwyd y byddai cysoni safonau ein gwasanaeth â'n dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth yn gwella effeithlonrwydd.

Sylwadau eraill a wnaed

Cynigiodd llawer o atebwyr hefyd sylwadau ynghylch meysydd eraill sy'n ymwneud ag ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru, nad ydynt wedi'u cwmpasu'n benodol gan Gynigion 1-5. Ceir crynodeb o rai o'r sylwadau hyn isod.

Cynigiodd rhai atebwyr adborth ynghylch yr angen am ragor o ddata economaidd ynghylch Cymru, er enghraifft, datblygu dull o fesur Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru. Argymhellwyd gwelliannau i gyhoeddi data economaidd Cymru hefyd fel rhan o Gomisiwn Silk. Byddwn yn adolygu'r angen am ragor o ddata economaidd dros yr ychydig fisoedd nesaf, gan ystyried cost data o'r fath a'i addasrwydd at ei ddiben.

Cafwyd adborth ynghylch y fformat data 'agored' a ffafrir gennym. Eglurodd un atebydd fod yn well ganddi dablau StatsCymru na'r ffeiliau .csv fflat a ddarperir gan sefydliadau eraill, oherwydd gall fod yn anodd i ddefnyddwyr gael yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt o setiau data mawr sydd heb eu fformatio.

Mynegwyd diddordeb hefyd yn ein cynlluniau i weithio gyda'r Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol newydd yng Nghymru i wneud y gorau o ffynonellau data presennol. Byddwn yn parhau i hysbysu ein defnyddwyr am ddatblygiadau yn y maes hwn.

Mynegwyd pryderon ynghylch lleihad posibl yn ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael ynghylch y Gymraeg, o gofio na chafodd ystadegau ynghylch y Gymraeg eu crybwyll yn benodol yn ein hymgyngoriad, a gan ystyried hefyd cynigion diweddar y Swyddfa

Ystadegau Gwladol (SYG) ynghylch dyfodol y Cyfrifiad. Mae'r Ystadegydd Gwladol bellach wedi gwneud ei hargymhelliad⁶ sef Cyfrifiad a fydd ar-lein yn bennaf yn 2021, a byddwn yn gweithio'n agos â'r SYG i weithredu eu cynlluniau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau fod gwybodaeth ofynnol ynghylch y Gymraeg yn cael ei chasglu.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd dangosyddion Deilliant 3 yn strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru na dangosydd OU099 y Rhaglen Lywodraethu ar gael ar StatsCymru. Byddwn yn ceisio sicrhau fod yr wybodaeth hon ar gael trwy StatsCymru.

Dywedodd un atebudd y byddai'n fuddiol pe bawn yn cyhoeddi nifer y cartrefi gwag. O ganlyniad, rydym yn ychwanegu'r wybodaeth hon at ein cyhoeddiad blynyddol Amcangyfrifon Stoc Anedd⁷.

Dywedodd un atebudd fod ganddo ddiddordeb mewn data ynghylch absenoldeb salwch athrawon. Byddwn yn parhau i gasglu'r un wybodaeth ynghylch absenoldeb salwch athrawon a gesglir gennym ar hyn o bryd.

⁶ www.ons.gov.uk/ons/about-ons/who-ons-are/programmes-and-projects/beyond-2011/beyond-2011-report-on-autumn-2013-consultation--and-recommendations/

⁷ www.wales.gov.uk/statistics-and-research/dwelling-stock-estimates/

Y Camau Nesaf

O ystyried yr ymatebion a gawsom, mae hyn yn awgrymu fod ein defnyddwyr yn cytuno â'n cynigion ar y cyfan, a nawr, byddwn yn cychwyn camau i symud ymlaen â mwyafrif y cynigion hyn. Yn achos mwyafrif yr allbynnau, byddwn yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig yn syth. Yn achos rhai allbynnau, byddwn yn eu cyhoeddi unwaith yn rhagor ar eu ffurf bresennol, neu byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i amser neu gynnwys cyn gwneud unrhyw newidiadau. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein camau arfaethedig yn achos pob allbwn ystadegol y mae ein cynigion yn effeithio arnynt.

Caiff manylion pellach ein cynllun gwaith am y flwyddyn nesaf ei gynnwys yn ein Cynllun Tystiolaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol ar gyfer 2014-15 a gyhoeddir ym Mehefin.

Wrth gwrs, byddwn yn parhau i adolygu ein gweithgarwch yn rheolaidd a cheisio adborth ein defnyddwyr i'n galluogi i ddiwallu cymaint ag y bo modd o ofynion defnyddwyr yn y dull mwyaf effeithlon, a sicrhau ein bod yn ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Cynnig a'r Allbynnau a Gaiff eu Heffeithio	Penderfyniad yn dilyn y ddogfen ymgynghori
<p data-bbox="188 1050 1072 1182">Cynnig 1</p> <p data-bbox="188 1093 1072 1182">Byddwn yn cyfeirio defnyddwyr yn uniongyrchol at ystadegau ar wefan cynhyrchwyr data swyddogol eraill, yn hytrach na llunio'r crynodebau "ystadegau pennawd" canlynol o'u data:</p> <ul data-bbox="188 1196 1072 2027" style="list-style-type: none">• Mynegai Prisiau Defnyddwyr (Swyddfa Ystadegau Gwladol)• Arolwg Busnes Blynyddol (Swyddfa Ystadegau Gwladol)• Cynhyrchiant y Sector Cyhoeddus (Swyddfa Ystadegau Gwladol)• Cyrchfannau Disgyblion (Gyrfa Cymru)• Cyrchfannau'r Sawl sy'n Gadael Addysg Uwch (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch)• Ystadegau UCAS (UCAS)• Ystadegau Blynyddol Cyllid Myfyrwyr (Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (http://wales.gov.uk/statistics-and-research/student-loans-higher-education/?lang=cy a http://wales.gov.uk/statistics-and-research/student-support-higher-education/?lang=cy)• Mapiau Iechyd Cymru (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)• Data ar-lein ynghylch derbyniadau i ysbytai (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)• Ystadegau Allweddol (Swyddfa Ystadegau Gwladol)• Diogelwch Cleifion (Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion)• Rhoi organau (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG)• Amseroedd aros damweiniau ac argyfwng (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)• Disgwyliad oes (Swyddfa Ystadegau Gwladol)• Cyhoeddiad cysylltiedig allbynnau poblogaeth a mudo (Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Swyddfa Gartref, Adran Gwaith a Phensiynau)• Mynegai Prisiau Tai (Swyddfa Ystadegau Gwladol)• Cod Cartrefi Cynaliadwy a sgoriau SAP cartrefi newydd (Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol)	<p data-bbox="1096 1339 1407 1550">Bwrw ymlaen â'r cynigion pan fydd digon o wybodaeth wedi'i hychwanegu at ein gwefan i ganiatáu i ddefnyddwyr ganfod yr ystadegau.</p> <p data-bbox="1096 1585 1407 1733">Lle gellir gwneud hynny, caiff diweddariadau i'r ystadegau hyn eu cynnwys yn ein calendr o gyhoeddiadau sy'n dod.</p>

<ul style="list-style-type: none"> Rhestrau nwyon tŷ gwydr gweinyddiaethau datganoledig (NAEI / DECC) Allyriadau a gwarediadau nwyon tŷ gwydr o Ddefnydd Tir, newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF) (NAEI / Defra UK-AIR) Ffigyrau Ansawdd Aer (NAEI / DECC) 	
<p>Byddwn yn lleihau nifer y bwletinâu ystadegol a gynhyrchwn sy'n gwneud dim ond dyblygu ystadegau am Gymru sydd ar gael yn rhwydd gan sefydliadau eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> Enillion Myfyrwyr mewn Addysg Uwch Cyrchfannau ymadawyr Addysg Uwch Ystadegau UCAS Dangosyddion Perfformiad Addysg Uwch Beichiogi yn yr arddegau Genedigaethau a Marwolaethau Babanod <p>• Staffio'r GIG</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynigion pan fydd digon o wybodaeth wedi'i hychwanegu at ein gwefan i ganiatáu i ddefnyddwyr ganfod yr ystadegau.</p> <p>Lle gellir gwneud hynny, caiff diweddariadau i'r ystadegau hyn eu cynnwys yn ein calendr o gyhoeddiadau sy'n dod.</p> <hr/> <p>Angen mwy o ystyriaeth cyn symud y cynnig ymlaen</p>
<p>Cynnig 2</p>	
<p>Byddwn yn ceisio gwella prydlondeb a mynediad at ystadegau perfformiad iechyd misol trwy gyhoeddi'n bennaf trwy StatsCymru a chynhyrchu cyhoeddiadau llai aml sy'n cynnwys rhagor o sylwebaeth a dehongli,</p> <ul style="list-style-type: none"> Perfformiad ambiwlansys Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth Oedi wrth drosglwyddo gofal Atgyfeiriadau gan feddygon teulu <p>• Datganiad ystadegol deintyddol chwarterol</p>	<p>Byddwn yn parhau i ddilyn y cyfeiriad arfaethedig ond byddwn yn cyfathrebu ymhellach â defnyddwyr. Byddwn yn sicrhau fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> - ystadegau allweddol yn cael eu diweddarar ar y wefan - diweddariadau StatsCymru wedi eu cynnwys ar y calendr o gyhoeddiadau i ddod - defnyddwyr yn cael hysbysiad o unrhyw newid arfaethedig <p>Bwrw ymlaen â'r cynnig yn dilyn cyhoeddiad mis Mai</p>
<p>Byddwn yn cyhoeddi data Camddefnyddio Sylweddau yn fisol ar StatsCymru, â Datganiad Ystadegol Cyntaf dwywaith y flwyddyn neu yn flynyddol (yn lle Datganiad Ystadegol misol Camddefnyddio Sylweddau)</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig.</p>
<p>Cyhoeddi data cyllid myfyrwyr ac EMA yn fisol ar StatsCymru, â Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol (yn lle Datganiadau Ystadegol misol cyllid myfyrwyr ac EMA)</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p>

<p>Cyhoeddi ystadegau Tai Newydd yn chwarterol ar StatsCymru, â Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol (yn lle Datganiad Ystadegol chwarterol Tai Newydd)</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig ond sicrhau fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> - rhai ystadegau allweddol yn cael eu diweddarau ar y wefan - diweddariadau StatsCymru wedi eu cynnwys ar y calendr o gyhoeddiadau i ddod - defnyddwyr yn cael hysbysiad o unrhyw newid arfaethedig
<p>Cyhoeddi ystadegau Digartrefedd yn chwarterol ar StatsCymru, â Datganiad Ystadegol Cyntaf ddwywaith y flwyddyn (yn lle Datganiad Ystadegol Digartrefedd chwarterol)</p>	
<p>Byddwn yn lleihau amlder rhyddhau datganiadau data Anafiadau Fyrdd o chwarterol i flynyddol. Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn dal i gyhoeddi data</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p>
<p>Byddwn yn cyhoeddi amcangyfrifon chwarterol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel rhan allbwn ein Harolwg Poblogaeth Blynyddol chwarterol ehangach, yn hytrach na bwletin chwarterol pwrpasol</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig yn dilyn 2 gyhoeddiad chwarterol arall</p>
<p>Byddwn yn lleihau amlder proffiliau economaidd a marchnad lafur ranbarthol o fisol i chwarterol.</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig. Cyhoeddiad Mehefin fydd yr olaf. Cyhoeddir y proffiliau ym Medi, Rhagfyr, Mawrth a Mehefin bob blwyddyn (i gyd-daro â misoedd cyhoeddi'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol)</p>
<p>Cynnig 3</p>	
<p>Byddwn yn rhoi'r gorau i gynhyrchu rhai cyhoeddiadau compendia a lle bydd hynny'n briodol/posibl, sicrhau fod data ar gael ar StatsCymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol • Compendiwm ystadegau ysgolion • Ystadegau ysgolion yn ôl etholaethau'r Cynulliad • Ystadegau lechyd Allweddol (detholiad cryno o rai o Ystadegau lechyd Cymru) • Poblogaeth Cymru: trosolwg demograffig • Ystadegau crynodol ardaloedd lleol 	<p>Byddwn yn rhyddhau'r cyhoeddiad nesaf ym mis Mehefin. Yna, byddwn yn ceisio datblygu'r compendiwm ar ffurf cynnyrch ar-lein.</p> <p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p> <p>Parhau i'w gyhoeddi</p>
<p>Byddwn yn datblygu cynigion i gynhyrchu cyhoeddiadau compendia eraill lle nad yw data ar gael yn rhwydd mewn manau eraill ar hyn o bryd, neu lle gallwn fod â dyletswydd statudol i gynhyrchu gwybodaeth. Byddwn yn sicrhau y caiff defnyddwyr eu hysbysu am gynlluniau o'r fath ymlaen llaw.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystadegau amaethyddol • Ystadegau Cyllid Awdurdodau Lleol Cymru • Ystadegau lechyd Cymru • Ystadegau Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p>
<p>Cynnig 4</p>	
<p>Byddwn yn lleihau amlder rhai Bwletinau Ystadegol yn cynnwys dadansoddiadau eilaidd sy'n newid ychydig iawn o flwyddyn i flwyddyn. Byddwn yn ystyried pob un yn ei dro ac yn sicrhau fod manylion y flwyddyn gyhoeddi gynlluniedig nesaf wedi'i gynnwys ar wefan Ystadegau Cymru.</p>	

<ul style="list-style-type: none"> • Lefelau Cymhwyster Uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio (Bwletin) • Cymudo – caiff tablau cysylltiedig StatsCymru eu diweddarau unwaith y flwyddyn ym mis Rhagfyr. • Demograffeg busnes - diweddarir tablau StatsCymru unwaith y flwyddyn • Anweithgarwch economaidd – bydd gwybodaeth bennawd ar gael trwy wefannau NOMIS a'r ONS • Oriau a weithir - bydd yr wybodaeth pennawd o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn dal ar gael ac mae gwybodaeth fanylach (megis diwydiannau a meddiannaeth) ar gael yn rhwydd gan ASHE • Iechyd Gofalwyr a bwletinau ad-hoc eraill Arolwg Iechyd Cymru. • Cyflawniad academaidd a phresenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion - cyhoeddir y rhain bob yn ail flwyddyn fel bwletin ystadegol. Cynhyrchir tablau StatsCymru newydd yn flynyddol • Cynhyrchu a Threulio Ynni yng Nghymru • Tannau Bwriadol - cyhoeddir y rhain o leiaf bob yn ail flwyddyn, ond bydd mwyafrif y data yn dal i fod ar gael trwy StatsCymru bob blwyddyn • Caiff dadansoddiadau manwl o anafiadau ffordd yn ôl nodweddion amrywiol eu cyfyngu i'r rhai sydd eu hangen i gefnogi datblygiad parhaus Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru. 	<p>Daeth y cynnig i rym ym mis Ebrill, ac ymgorfforwyd ychydig o wybodaeth ychwanegol yn y prif ganlyniadau. Bwrw ymlaen â'r cynnig. Byddwn yn parhau i gyhoeddi data ynghylch cymudo a demograffeg busnes bob blwyddyn.</p> <p>Byddwn yn sicrhau fod diweddariadau StatsCymru wedi eu cynnwys ar y calendr o gyhoeddiadau sydd ar ddod. Bwrw ymlaen â'r cynnig. Yn achos oriau a weithir ac anweithgarwch economaidd, byddwn yn cyfeirio defnyddwyr at fannau eraill lle gellir canfod y data, oherwydd cânt eu cyhoeddi mewn manau eraill. Bwrw ymlaen â'r cynnig</p> <p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p> <p>Bydd angen ymchwilio ymhellach i amledd gofynnol y data. Bwrw ymlaen â'r cynnig.</p> <p>Byddwn yn sicrhau fod diweddariadau StatsCymru wedi eu cynnwys ar y calendr o gyhoeddiadau sydd ar ddod.</p> <p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p>
<p>Cesglir llai o ddata ynghylch alldro gwariant cyfalaf llywodraeth leol i gyd-fynd â'r hyn a gesglir wrth wneud rhagolwg. Ni fydd manylion cyllido'r gwariant hwn yn cael eu heffeithio. Daw'r casgliad llai yn rhan o gasgliad ehangach o ddata gwariant alldro, yn cynnwys gwariant refeniw a chyfalaf, a daw'r wybodaeth a gyhoeddir yn rhan o ddatganiad ehangach ar wariant alldro, unwaith yn rhagor yn cynnwys gwariant refeniw a chyfalaf.</p> <p>Allbwn a effeithir: Gwariant Alldro Awdurdodau Lleol</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig, gan gychwyn â chasgliad 2014/15.</p>
<p>Byddwn yn rhoi'r gorau i gasglu a chyhoeddi ystadegau'r Gronfa Ariannol wrth gefn fel ystadegau swyddogol, ond yn lle hynny, adolygu ac ystyried beth yw'r dull gorau o gyflawni gofynion monitro Llywodraeth Cymru</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p>
<p>Byddwn yn lleihau casgliadau data ystadegau cyfanredol ysgolion Stats2 (Anghenion Addysgol Arbennig) a Stats3 (Swyddi gweigion a salwch athrawon). Lle gallwn, byddwn yn datblygu cynlluniau i gasglu data nad ydynt ar gael yn unman arall.</p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynnig</p>

Rhestr yr atebwyr

1. Felicity Chandler, Cyngor Sir Ddinbych
2. Gwion Dafydd, Cyngor Sir Ceredigion
3. Jayne Dando, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
4. Ceri Davies, Cyfoeth Naturiol Cymru
5. Paul Davies AC, Ceidwadwyr Cymru
6. Sian Donne, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
7. Janine Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
8. Emma Edworthy, Llywodraeth Cymru
9. Guy Goodwin, Swyddfa Ystadegau Gwladol
10. Lynda Grove, Cyngor Dinas a Sir Abertawe
11. Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg
12. Ian Johnson, Plaid Cymru
13. Anne Jones, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
14. David Jones, Estyn
15. Steve King, Cyngor Dinas a Sir Abertawe
16. David Lerman, ICAEW
17. Nathan Lester, Iechyd Cyhoeddus Cymru
18. Chris Hywel Macey, Cyngor Sir Ceredigion
19. Joshua Miles, Ffederasiwn y Busnesau Bach Cymru
20. Dai Morris, Gwasanaeth Achub a Than De Cymru
21. Clive Noble, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
22. Lesley Rees, Cyngor Sir Caerfyrddin
23. Rachel Richardson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
24. Jamie Thorburn, Cyngor Sir Ceredigion
25. Sian Walton-Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
26. Russell Watts, Cyngor Bro Morgannwg
27. Roisin Willmott, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

Bu trafodaeth hefyd yng nghyfarfod Mawrth 2014⁸ o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru, un o bwyllgorau ymgynghorol allweddol Llywodraeth Cymru ynghylch ystadegau swyddogol.

⁸ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/about/user-engagement/statistical-groups-committees/welsh-statistical-liaison-committee/6-march-2014/?lang=cy>